# 1.Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 13 Tachwedd 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(94)

**Datganiad gan y Llywydd: Cydsyniad Brenhinol - Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012.**

Cyhoeddodd y Llywydd y rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 ar 12 Tachwedd. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar Gomisiwn y Cynulliad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Cyfeiriodd y Llywydd hefyd at y ffaith bod hwn yn achlysur hanesyddol gan mai hon oedd y Ddeddf Cynulliad gyntaf i gael Cydsyniad Brenhinol.

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog**

Dechreuodd yr eitem am 13:30

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

**Cwestiwn Brys**

Dechreuodd yr eitem am 14:22

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl y Fforwm Clinigol Cenedlaethol yn ad-drefnu'r GIG yng Nghymru. EAQ(4)0191(HSS)

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

Dechreuodd yr eitem am 14:29

3. **Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Law yn Llaw at Iechyd – adroddiad cynnydd chwe mis – gohiriwyd o 6 Tachwedd**

Dechreuodd yr eitem am 14:44

4. **Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun "Gwella Ysgolion", a gyhoeddwyd ar 10 Hydref 2012**

Dechreuodd yr eitem am 15:19

5. **Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol: Fframwaith Newydd i Adolygu Ymarfer Plant – Diogelu ac Amddiffyn Plant yn Well**

Dechreuodd yr eitem am 15:56

6. **Dadl ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14**

Dechreuodd yr eitem am 16:24

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailddrafftio ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14 fel ei bod:

a) yn mynd i'r afael â'r pwysau ariannol eithriadol ar y Gwasanaeth Iechyd o ganlyniad i doriadau mewn termau real o £493 miliwn dros dair blynedd;

b) yn diwallu anghenion busnesau yng Nghymru, sy'n hanfodol wrth greu cyflogaeth;

c) yn cau'r bwlch cyllido rhwng disgyblion ysgol yng Nghymru a Lloegr; a

d) yn sicrhau darpariaeth i liniaru'r codiadau yn y dreth gyngor ar gyfer cartrefi yng Nghymru lle mae'r esgid ariannol yn gwasgu.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 10 | 32 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth y bwlch mewn gwariant ar addysg rhwng Cymru a Lloegr a fydd yn gwaethygu oherwydd na lwyddwyd i gynyddu'n sylweddol y Grant Amddifadedd Disgyblion yn 2013/14.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 21 | 27 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r Gyllideb Ddrafft yn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg mynediad at driniaethau arloesol yn y GIG.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 10 | 26 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM5087 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-2014 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ ar 2 Hydref 2012.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 10 | 16 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 18:01

Daeth y cyfarfod i ben am 18:03

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 14 Tachwedd 2012**